IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Mawrth, 20 Awst 2019

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
C.A. Davies and A.L. Fox

Hefyd yn bresennol fel Sylwedydd: Cynghorwr J.K. Howell

Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin
A. Rees, Swyddog Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin
D. Bizby – Heddlu Dyfed Powys

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 11.23 yb

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

2. DEILIAD TRWYDDED BERSONOL - RYAN JONES

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i adroddiad yn gofyn am ddiddymu'r Drwydded Bersonol a roddwyd yn flaenorol gan yr Awdurdod ar 24 Tachwedd, 2005 i Mr Ryan Jones o Fox Inn, Fox Corner, Worplesdon, Guidford, Surrey GU3 3PP.

Rhoddodd yr Arweinydd Trwyddedu wybod i'r Is-bwyllgor am amgylchiadau'r cais i ddiddymu. Rhoddwyd gwybod hefyd am farn Heddlu Dyfed-Powys ynghylch y mater, a oedd yn argymell atal y drwydded bersonol.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi cyfweld â Mr Jones ynghylch y materion a godwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu a Heddlu Dyfed-Powys.

Ar hynny

PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i roi ei benderfyniad

PENDERFYNWYD diddymu'r Drwydded Bersonol a roddwyd i Mr Ryan Jones.

<u>Rhesymau</u>

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor:-

1. Rhoddwyd trwydded bersonol i Mr Jones ar 24 Tachwedd 2005
2. Mae Mr Jones wedi cael ei ddyfarnu'n euog am droseddau perthnasol ers 6 Ebrill 2017
3. Roedd y drwydded bersonol gan Mr Jones wedi'i atal yn flaenorol gan y llysoedd am 6 mis yn 2013 ar ôl iddo gael ei ddyfarnu'n euog am droseddau perthnasol.
4. Roedd Mr Jones wedi methu â rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am y collfarnau hynny a'r newid yn ei gyfeiriad. Roedd y rheiny yn droseddau pellach.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Heddlu. Fodd bynnag, o gofio bod trwydded Mr Jones wedi cael ei hatal yn flaenorol am 6 mis gan y Llys Ynadon, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn na fyddai cyfnod atal pellach yn ddigonol i hyrwyddo'r amcan o ran atal troseddau. Yn benodol, nid oedd Mr Jones wedi dysgu'i wers o'r cyfnod atal blaenorol.

Nid oedd yr Is-bwyllgor yn derbyn y dystiolaeth gan Mr Jones ynghylch yr effaith y byddai diddymu ei drwydded bersonol yn ei chael ar y safle lle mae'n gweithio. Ni fyddai penderfyniad yr Is-bwyllgor yn dod i rym tan fod y cyfnod apelio statudol wedi dod i ben. Byddai hynny'n rhoi amser i'r deiliad trwydded safle benodi rhywun arall yn Oruchwylydd Penodedig y Safle.

Ar ôl ystyried y ffeithiau uchod, a'r sylwadau a gyflwynwyd, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon ei fod yn briodol iddo arfer ei ddisgresiwn i ddiddymu trwydded bersonol Mr Jones er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu o ran atal troseddau ac anhrefn.

Ar ben hynny roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cam gweithredu hwn yn ymateb cymesur i'r materion a gafodd eu dwyn i'w sylw.

3. DEILIAD TRWYDDED BERSONOL - NIGELLUS JUDE VAZ

Cyfeiriodd yr Arweinydd Trwyddedu at yr adroddiad yn gofyn am ddiddymu'r Drwydded Bersonol a roddwyd i Mr Nigellus Jude Vaz yn flaenorol a rhoddwyd gwybod bod Mr Vaz wedi gofyn am ohirio'r gwrandawiad ers i'r agenda gael ei ddosbarthu gan na fyddai'n gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod ar y diwrnod hwnnw.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried diddymu Trwydded Bersonol Mr Vaz tan 10 Medi, 2019 a rhoi gwybod i Mr Vaz pe na bai'n bresennol/gallu dod i'r gwrandawiad ar y dyddiad hwnnw, mae'n bosibl y bydd y mater yn cael ei ystyried yn ei absenoldeb.

4. DEILIAD TRWYDDED BERSONOL - RICHARD CRAIG PRYCE BUNFORD

Cyfeiriodd yr Arweinydd Trwyddedu at yr adroddiad yn gofyn am ddiddymu'r Drwydded Bersonol a roddwyd i Mr Richard Craig Pryce Bunford yn flaenorol a gofynnwyd a fyddai modd gohirio ystyried yr adroddiad tan 10 Medi, oherwydd yr anawsterau a wynebwyd o ran dod o hyd i Mr Bunford, er mwyn galluogi ymchwiliadau priodol i gael eu cynnal. Dywedodd, os nad yw'n bosibl dod o hyd i Mr Bunford erbyn yr adeg honno, mae'n bosibl y gofynnir i'r Is-bwyllgor ystyried diddymu'r drwydded yn ei absenoldeb.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried diddymu Trwydded Bersonol Mr Bunford tan 10 Medi, 2019.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**